| Ymyrraeth | Sgiliau Cywir | | |
|---|---|---|---|
| Arwain | Guy Lacey a Stephen Tiley | Cyfnod Adrodd | Chwarter 2 2022-23 |

| | |
|---|---|
| Gwyrdd | Cynnydd yn unol â'r targed ar hyn o bryd |
| Oren | Cynnydd heb fwrw'r targed, ond yn gyraeddadwy o hyd |
| Coch | Cynnydd ymhell o fwrw'r targed |

## Prif Gyflawniadau a Llwyddiannau

Cynhaliodd partneriaid wythnos o ddigwyddiadau am ddim gan roi cyfle i breswylwyr ganfod y gefnogaeth sydd ei angen arnynt i wella eu sgiliau digidol. Roed y sesiynau'n cynnwys sut i ddefnyddio'r gwasanaethau digidol yn llyfrgelloedd Casnewydd, defnyddio technoleg gynorthwyol i gefnogi byw'n annibynnol, sut i ddefnyddio e-bost, siopa a bancio yn ddiogel ar-lein a sut i'ch cadw chi a'ch plant yn ddiogel ar-lein. Digwyddiadau mewn lleoliadau ar draws y ddinas – gan gynnwys Marchnad Casnewydd, campws Coleg Gwent Trefonnen, Llyfrgell Betws a champws dinas PDC.

Prifysgol De Cymru a Choleg Gwent yn paratoi cynlluniau cwricwlwm mewn meysydd allweddol, adolygu'r cynnig presennol (yn benodol, iechyd a gofal cymdeithasol, digidol a seidr) ac edrych ar ddarpariaeth newydd i gefnogi datblygu'r cynnig dinas cydgysylltiedig wrth i CG baratoi i leoli ei hun gyferbyn â champws PDC. Mae PDC wedi penodi Swyddog Allgymorth ac Ymgysylltu yng Nghasnewydd a fydd yn cysylltu ag ysgolion, y Coleg, y Cyngor a busnesau lleol er mwyn sicrhau bod llwybrau a ddilyniant clir rhwng y Coleg a PDC.

Prosiect sgiliau'r sector sgrin, Troed yn y Drws, yn mynd rhagddo. Roedd y gweithgaredd yn cynnwys uned dros dro yn Friars Walk a gweithdai / digwyddiadau e.e. Chwalu hud y sector ffilm a theledu, ysgrifennu CV, adeiladu set, effeithiau arbennig, colur theatrig, adrodd stori, creu ffilm, gweithdai creadigol. Prosiectau dan arweiniad PDC, CG, POBL, Urban Circle, Screen Alliance Wales a Cult Cymru.

Cydweithiodd partneriaid i hyrwyddo addysg i oedolion yn ystod Wythnos Addysg Oedolion.

Mapio gweithgarwch partneriaid ac adolygu ymgysylltu â chymunedau lleiafrifoedd ethnig i gefnogi cyfranogiad.

Ffair swyddi ledled y ddinas AGPh Restart a gynhaliwyd ym Marchnad Casnewydd.

| Rhwystrau i gynnydd | Statws | Camau Lliniaru / Y Cymorth Sydd ei Angen |
|---|---|---|
| Mae Cronfeydd Cymdeithasol Ewrop yn dod i ben ar gyfer Aspire2Achive sy'n effeithio ar gyflwyno Ymgysylltu â Phobl Ifanc a Dilyniant (NEET) | H | Archwilio ffynonellau ariannu eraill. |

| Mesuriadau Perfformiad Allweddol | Targed | Gwirio-neddol | COG |
|---|---|---|---|
| % y disgyblion Blwyddyn 11 sy'n gadael yr ysgol nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) | 1.3% | Adroddwyd Mehefin 2023 | |
| % y disgyblion Blwyddyn 13 sy'n gadael yr ysgol nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) | 2.0% | Adroddwyd Mehefin 2023 | |
| Buddiolwyr Rhaglen Troed yn y Drws | 320 | 250 | |
| Nifer y digwyddiadau allgymorth/ymgysylltu CG a PDC yn y ddinas a'r ymholiadau a ddaeth i law | *I'w gadarnhau* | | |

## Cynllun ar gyfer y chwarter nesaf a'r dyfodol

Parhau i gyflawni Troed yn y Drws. Digwyddiad gyrfaoedd ym mis Tachwedd gyda lansiad canllaw i ddod o hyd i waith, cael mynediad at hyfforddiant, a hybu rhwydweithiau. Digwyddiad rhannu gwybodaeth ym mis Rhagfyr ar yr hyn ellir ei ddysgu o'r rhaglen.

Datblygu digwyddiad busnes gyda Manufacturing Wales fel rhan o waith PDC/CG i sicrhau y canolbwyntir mewn modd strategol ar gyfleoedd i gefnogi uwchsgilio a bylchau ym marchnad swyddi'r sector gweithgynhyrchu.

Datblygu gwaith i hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil cyflogadwyedd.

Cyflawni Diwrnodau Symud Ymlaen fel rhan o waith atal NEET.

Ymestyn Rhaglen Milwin o Fentoriaid i bob ysgol yng Nghasnewydd.

Digwyddiad gyrfaoedd gyda chyflogwyr Casnewydd ar gyfer myfyrwyr Bl. 9 Casnewydd yn ICC Cymru.

Coleg Gwent yn rhannu ei brofiad a'i arbenigedd yn cefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol i mewn i fyd gwaith gyda PDC . PDC yn darparu profiad gwaith i ddysgwyr Coleg Gwent ar Gampws Casnewydd ym meysydd arlwyo, ystadau/diogelwch, a llyfrgelloedd/ cymorth myfyrwyr o fis Hydref. Adeiledir ar hyn yn y tymor hir a bydd yn llwyfan i'r gwaith y mae Coleg Gwent yn ei wneud yn y maes hwn ar gyfer cyflogwyr a sectorau eraill yn y ddinas.